Cyswllt Celf
Arts Connection

Canolfan Ieuenctid a Chymunedol
Llanfyllin
Powys SY22 5DR
CYMRU

Youth & Community Centre
Llanfyllin
Powys SY22 5DR
WALES

COMPANY REGISTERED IN ENGLAND AND WALES - 2911716 - CWMNI COFRESTREDIG YN LLOEGR A CHYMRU
REGISTERED CHARITY NUMBER - 1135641 - ELUSEN GOFRESTREDIG RHIF

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

Supported by
The National Lottery
through the Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan
Y Loteri Genedlaethol
trwy Gyngor Celfyddydau Cymru

Ffôn 01691 648 929 *Phone*
Ffôn Symudol 07814 523 521 *Mobile Phone*

e-bost nerys / sian@artsconnection.org.uk *e-mail*
gwefan www.artsconnection.org.uk - www.cyswlltcelf.org.uk *web*

Tendr Artist i Gyswllt Celf
- Prosiect Ffilm gyda Chlybiau Ieuenctid Llanfyllin a Llanfair Caereinion

Rhaglennir i ddigwydd yn ystod Tymor yr Hydref 2010

Cefndir a Chyd-destun
Mae Cyswllt Celf yn rheoli prosiect ffilm i Wasanaeth Ieuenctid Powys.

Canlyniad y prosiect yw creu ffilm 10 munud i hyrwyddo'r Gymraeg a Diwylliant Cymreig mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar bobl ifanc.

Briff
Mae angen gwneuthurwr ffilm a hwylusydd i alluogi pobl ifanc o Glybiau Ieuenctid Llanfyllin a Llanfair Caereinion i greu ffilm 10 munud ar thema'r Gymraeg a Diwylliant Cymreig.

Bydd y prosiect yn rhedeg dros gyfnod o 10 wythnos yn ystod Tymor yr Hydref, gyda 5 sesiwn ym mhob lleoliad. Y nod yw caniatáu i'r bobl ifanc eu hunain ddysgu'r sgiliau fydd eu hangen, a chreu'r ffilm eu hunain gyda chefnogaeth broffesiynol yr artist a'r hwylusydd.

Mae'n rhaid i'r darn o waith fod yn ysbrydol, creadigol a gwreiddiol gyda gwerthoedd cynhyrchu rhagorol.

Bydd pum diwrnod ar gael i olygu'r ffilm 10 munud derfynol.

Gellir ymgeisio'n unigol naill ai fel artist neu fel hwylusydd, neu gellir cyflwyno cais ar y cyd.

Offer a ddarperir gan Gyswllt Celf
2 gamera Canon XM2 & 3 Canon Legria HF-S10
2 Treipod
4 Gliniadur Apple gyda rhaglen *Final Cut Express* (Mae'r rhaglen *Pro* ar gael yn swyddfa CC)
Meicroffon Sennheiser a dyfais recordio

Ffïoedd
Telir ffi artist o £75 y sesiwn (3 awr). Telir ffi hwylusydd o £30 y sesiwn. Os ydych yn teithio dros 50 milltir (cyfanswm yno ac yn ôl) telir costau teithio ar raddfa £0.40 y filltir.

Dethol a Chymhwyster
Bydd angen i artistiaid sy'n ymgeisio dangos profiad o weithio gyda phobl ifanc, profiad o weithio ar ffilm(iau) cymunedol, a byddai'n ddymunol cael gwneuthurwr ffilm sy'n siarad Cymraeg a/neu sy'n deall diwylliant a threftadaeth Cymru.

Y Broses Ymgeisio
Artist:
Llythyr atodol gydag:

- Enw a Manylion Cyswllt
- Datganiad gan yr Artist (500 gair uchafswm) ynghylch eich gwaith artistig
- Cynllun i'r sesiynau
- Datganiad ynghylch sut byddwch yn ymgysylltu â'r bobl ifanc i drafod Y Gymnraeg a diwylliant Cymru.
- Rholyn arddangos – naill ai ar DVD neu wefan neu Youtube
- CV
- Rhif CRB a'r Dyddiad Cyhoeddi (os nad oes gennych wiriad CRB cyfredol, bydd angen i chi fynd drwy'r broses cyn cychwyn y prosiect – cost hyn fydd £36)

Hwylusydd:
Llythyr atodol gyda:

- CV
- Rhif CRB a'r Dyddiad Cyhoeddi (os nad oes gennych wiriad CRB, bydd angen i chi fynd drwy'r broses cyn cychwyn y prosiect – cost hyn fydd £36)

DS: gall methu â chyflwyno unrhyw un o'r uchod ddiddymu eich cais.

Dylid anfon eich cais naill ai drwy e-bost neu drwy'r post at:
Cyswllt Celf, Canolfan Ieuenctid a Chymunedol, Llanfyllin, Powys, SY22 5DR neu gellir e-bostio at: sian@artsconnection.org.uk

Dyddiad cau i dderbyn ceisiadau: Dydd Llun 2^{ail} Awst 2010

Bydd pob cais yn cael ei adolygu gan Banel Dethol fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyswllt Celf a mudiadau partner.